

Dysgu Wrth Fy Nhraed- Ysgol A

Mae gan yr ysgol hon 482 o ddisgyblion ac mae wedi eu lleoli yn ardal poblogaeth yn Abertawe (Estyn, 2018). Mae'r ysgol yma amlwg yn teimlo'n gryf am gynnwys rhieni, gofawyr a'r gymuned i mewn i bob agwedd o fywyd ysgol y plant ac yn cymryd hyn yn ddifrifol. O fewn y poster, rwyf wedi ychwanegu yn fanylder beth mae'r ysgol yn gwneud a beth maen nhw'n defnyddio i ddylanwadu rhieni, gofawyr a'r gymuned i gymryd rhan er mwyn profi eu pwynt. Rydw I hefyd wedi ychwanegu ychydig o nodweddion sydd yn helpu lles y plant a'r theori o amgylch hyn.

Yn ôl y wefan Estyn (2018), mae'r Llywodraeth yn darparu 7% o'r plant gyda phrydau bwyd am ddim ond, yn llai na chanran Cymru o 18%. Felly, mae hyn yn dangos bod lefelau o dlodi yn yr ardal yma yn llai na llawer o lefydd arall Yng Nghymru. O ganlyniad, bydd y plant yma yn cael llawer fwy o gyfleoedd o fewn y byd addysg ac yn debygol o lwyddo yn y dyfodol. Yn wahanol i hyn, dim ond 10% o'r plant yn dod o gartrefi Cymraeg ac felly, nad yw llawer o blant yn cael eu hannog i siarad Cymraeg yn gyson. Dyfynnodd Welsh in the home and in education bod "9% o siaradwyr Cymraeg rhugl yn dod o gartrefi lle nad oedd y rhieni yn siarad Cymraeg o gwbl." Ac felly, mae ein hiaith Gymraeg yn marw. Dywedodd Tim Pearce of Rhag, llywodraeth dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg;

Mae hanfodion addysg cyfrwng y Gymraeg dal yno ac yn cael eu profi i weithio. Cyfrwng y Gymraeg yw'r ffordd orau o greu plant cymwys Gymraeg eu hiaith. Y gwir amdani yw bod addysg cyfrwng y Gymraeg yn ymestyn ac yn herio plant ac yn eu hannog i gyflawni mwy ac edrych ar gwestiynau a materion o safbwyntiau gwahanol.

(Tim Pearce, 2021)

Sydd eto, yn dangos pwysigrwydd rhieni siarad Cymraeg tu allan i safle'r ysgol. Serch hyn, gwnaeth yr ysgol penderfynu darparu rhieni sydd ddim yn gallu siarad Cymraeg gyda gwersi dysgu Cymraeg. Trwy ddarparu'r gwasanaeth yma, mae'r rhieni yn gallu rhyngweithio efo'r plant o adref a helpu iddyn nhw magi hyder yn yr iaith. O ganlyniad, bydd y plant yn datblygu ac yn dysgu yn well tu fewn a thu allan i'r ysgol. Dyfynnodd RhAG (2021) "Heb fewnbnw academiaidd, gall y plant hyn golli hyder yn eu gallu i siarad yr iaith." Ac felly, oherwydd y galw enfawr am siaradwyr Cymraeg ynghylch swyddi, bydd y plant yn cael ei adael a ddim swydd ac yn tlodi. Yn ôl pob sôn, mae'r ysgol yn teimlo'n gryf am hyn ac yn annog rhieni i siarad Cymraeg. Bydd pob rhiant yn gadael y sesiwn gyda llyfr 'dysgu gyda Sam' sydd yn rhoi diffiniadau geiriau syml yn y Gymraeg.

Yn ychwanegol, mae lles y plant yn hollbwysig o fewn yr ysgol ac maen nhw'n profi hyn trwy gael y plant i gymryd rhan mewn ysgol coedwig. Mae'r ysgol coedwig yn caniatáu i blant datblygu eu hunain trwy ddatrys problemau, hunan ddarganfod a chymryd risgiau i gyd mewn amgylchedd diogel y byd natur. Mae ysgol coedwig hefyd yn helpu datblygu sgiliau cyfathrebu ac emosiynol trwy adael i'r plant gweithio yn annibynnol ynghylch eu hunain a dod i adnabod teimladau ei hunain yn well. (Xenia Spencer-Milnes, 2021)

I gysylltu gyda hyn, roedd Urie Bronfenbrenner yn credu bod dylanwadau yn gallu creu effaith uniongyrchol i ddatblygiad plentyn. Er mwyn profi eu pwynt ymhellach, rhannodd Bronfenbrenner eu hamgylchedd mewn pum system wahanol megis; Y system ficro sef, y bobl agosach at y plentyn. Gall hyn fod yn rhieni, ffrindiau, athrawon a brodyr a chwiorydd. Y system meso sef, y cyfathrebiad rhwng y bobl agosach at y plentyn. Mae'r system eco yn golygu'r dylanwad ar bobl y system meso felly, ffrindiau'r rhieni a'r system feicro sef ein hamgylchedd, hynny yw, ein crefyddau, credoau a diwylliannau. Yn olaf, y system crono. Gall hyn fod yn unrhyw newidiadau amgylcheddol sydd yn creu effaith ar y plentyn, er enghraifft, symud ysgol neu dŷ.

(Guy-Evans.O, 2020)

Oherwydd theori Bronfenbrenner, mae'n wir fod ein hamgylchedd yn dylanwadu ar ddatblygiad ein plant ac felly, mae'r ysgolion coedwig yn lle arbennig i'r plant ddatblygu ar eu sgiliau hollysol a dod yn fwy hyderus gyda'r byd ni'n byw ynddo heddiw. I ddatblygu'n ymhellach, mae'r ysgol hefyd yn cefnogi theori Bronfenbrenner trwy gadw perthynas agos gyda'r teuluoedd ac yn cadw cyfathrebiad da parhaus. Mae hyn wedi profi i helpu'r plentyn i ddatblygu'n academiaidd yn y ffordd orau phosib.

Yn ôl pob sôn, er bod gan yr ysgol canran isel o dlodi, mae dal i fod nifer o rieni sydd yn dioddef yn gartrefol, yn ariannol ac yn feddyliol ac felly, mae'r ysgol wedi darparu nosweithiau hyfforddiant i'r rhieni yma. O fewn y sesiynau yma, mae cyfle i'r rhieni dysgu sut i hybu dysgu'r plant, sut i ddiogelu ei phlentyn ar y we a gwersi coginio i'r teuluoedd fwyaf bregus, hynny yw, sut i goginio bwydydd sydd yn hawdd, yn rhad ac yn iachus i'r teulu. Yn ystadegol, mae 76% o blant ysgol yn mynd i'r ysgol heb fwyd ac o ganlyniad, yn methu canolbwyntio o fewn gwersi (Steven Smith, 2022). Wrth ddarparu'r sesiynau yma, mae'r ysgol yn gobeithio lleihau lefelau tlodi ond cynyddu gallu academiaidd yr ysgol.

Yn gysylltiedig, mae Hierarchaeth Maslow yn dweud bod ein hanghenion ffisiolegol a seicolegol yn ysgogi ein gweithredoedd sydd yn symud ymlaen o'r bôn i'r cymhleth (Kendra Cherry, 2022). O ganlyniad, mae'n bwysig i gyflawni anghenion sylfaenol cyn symud ymlaen i anghenion eraill, mwy datblygedig. Mae'r anghenion sylfaenol ffisiolegol yn cynnwys; bwyd, dwr a dillad i'r anghenion mwy cymhleth megis, hunan sylweddolaeth. Mae theori Maslow wedi profi mae angen cwrdd ag anghenion sylfaenol y plant yn gyntaf, megis, darparu prydau bwyd am ddim a'r nosweithiau rhieni, cyn disgwyl iddyn nhw symud ymlaen yn ddatblygiadol i'r camau nesaf. Yn bersonol, credaf fod yr ysgol yn gwneud swydd da o helpu'r disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned y gorau gallant, ac wedi profi hyn trwy darparu'r cefnogaeth maen nhw'n ymroi.

Yn ychwanegol, mae iechyd a lles y plant yn hollbwysig i'r ysgol ac felly, mae'n nhw'n trefnu ymweliadau iechyd a lles yn tymhorol er mwyn hybu iechyd da i'r plant. Enghreifftiau o'r gwasanaethau sydd yn ymweld a'r ysgol yw, designed to smile, gari gofal, heini, yr heddlu a Joe Wicks. Mae'r ymweliadau yma yn sicrhau bod anghenion iechyd a lles y plant yn cael eu chwedd. Yn ol Y Guardian, mae lefelau uchel iawn o tlodi hylendid ar draws y DU, dyfynnodd;

Dywedodd 63% o athrawon eu bod yn gweld plant yn troi i fyny mewn dillad budr; Mae bron i hanner (47%) â phlant sy'n dod i'r ysgol heb lanhau eu dannedd, a dywedodd 8 o bob 10 eu bod wedi gweld cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n dod i'r ysgol heb eu golchi.

(Sally Weale, 2018)

Yn ogystal, mae'r ystadegau hon yn profi pwysigrwydd dysgu iechyd a lles i'r plant o oedran ifanc. O fewn yr ysgol pontio, roedd yna bosteri a gwybodaeth o amgylch yr ysgol er mwyn annog y plant i gadw'n iach megis, golchi dwylo, llysiau a ffrwythau a ble i gael cefnogaeth o os oes angen cymorth, yn gorfforol neu'n emosiynol. Er mwyn cefnogi'r rhieni, gofawyr a'r gymuned ymhellach, mae boreau coffi yn cael eu cynnal o fewn yr ysgol ac yn rhoi cyfle i'r rhieni cwrdd â rhieni eraill, ymweld â gwasanaethau iechyd meddwl megis, CAMHS, ymwelwyr iechyd, nyrsiai ac elusennau. Mae hyn yn galluogi bod y rhieni, gofawyr at gymuned yn cael y gefnogaeth a'r gofal cywir er mwyn cynnal bywyd iachus iddyn nhw a'i phlant. Yn enwedig dros y tair blynedd diwethaf, nid oes gan y rhieni mynediad hawdd i'r gwasanaethau yma ac felly, credaf fod hyn yn ffordd dda iawn o gyflwyno arferion iechyd a lles i'r teuluoedd sydd yn cael trafferth. Mae hyn hefyd yn gyfleus i bawb.

Yn gysylltiedig, mae'r CRAch (PTA) yr ysgol yn trefnu'r boreau coffi yma, sydd yn cael eu cyfeirio gan yr ysgol fel Llewod [REDACTED]. Mae'r CRAch yn rhoi'r cyfle i rhieni codi arian ar gyfer yr ysgol trwy gynnal digwyddiadau trwy gydol y flwyddyn academiaidd. Yn ol y wefan, dyfynnodd "Er bod agwedd codi arian, yn bwysig, rhoddir blaenoriaeth I ddarparu cymuned fywiog a chydweithredol ar gyfer yr ysgol." Mae hyn yn cyfleu y teimladau gryf mae'r ysgol yn gael am y rhieni, y gymuned a'r gofawyr ac yn amlwg yn credu'n gryf am lles y teuluoedd sydd wedi dewis bod yn rhan o gymuned yr ysgol.

Yn ychwanegol, mae'r ysgol yn cynnwys y gymuned trwy roi cyfle i'r disgyblion gwneud gwasanaethau a chymryd rhan mewn gweithgareddau sydd yn codi arian am ei chymuned. Er enghraifft, trefnodd yr ysgol 'diwrnod noddedig' lle'r oedd cyfle i'r plant gyfranogi mewn ymarfer corff o'i ddewis a chodi arian, hynny yw, sgipio, rhedeg pêl fasged neu fideos cadw heini gyda Heini. Hefyd, roedd cyfle gan y plant cymryd rhan mewn scouts y gymuned a'r brownies y gymuned. Gwnaeth y diwrnod cynllunio allan yn grêt ac fe gafodd pawb diwrnod hwylus. Yn bersonol, credaf fod hyn yn ffordd wych i gynnwys y gymuned ac yn ffordd hwylus i'r plant cadw'n iachus a gwneud ei rhan nhw i helpu'r bobl o'i chwmpas. Yn ôl my local school (2015), mae 82% o'r plant yn yr ysgol yn mwynhau gwersi chwaraeon lot fawr. Mae'r canran uchel yma yn adlewyrchu'r gymuned arbennig mae'r ysgol wedi adeiladu trwy'r gweithgareddau maen nhw'n cynnal trwy gydol y flwyddyn

academaidd. Yn ôl pob sôn, mae'r ysgol hefyd yn cymryd rhan mewn 'beach clean' unwaith pob tymor er mwyn dysgu'r plant pwysigrwydd o edrych ar ôl y natur o'i chwmpas. Mae'r ysgol yn credu trwy addysgu'r plant am yr effaith mae ein gweithredoedd, megis, arllwys sbwriel yn gwneud i'r bodau dynol o'm cwmpas, bydd y plant yn fwy gwyliadwrs wrth ymdrin â'r amgylchedd. Mae'r plant hefyd yn ymwybodol ar ba ddeunydd sydd yn mynd mewn pob bin, hynny yw, plastig a gwydr mewn biniau gwahanol.

Mae'r ysgol hefyd yn gwneud llawer o waith gyda'r gymuned yn bennaf dros y Nadolig. Y flwyddyn ddiwethaf, aeth yr ysgol i'r eglwys leol a rhoddodd yr ysgol adnoddau ymolchi i'r teuluoedd digartref lleol. Mae hyn yn dysgu'r plant i roi ac i beidio disgwyl yn ôl. Mae hefyd yn dysgu'r plant caredigrwydd ac i fod yn ddiolchgar am beth maen nhw'n derbyn. Serch hyn, mae'r plant yn dysgu safbwyntiau byw pobl arall ac yn sylweddoli pwysigrwydd bod yn barchus ac yn garedig. Yn bennaf, mae'r ysgol wedi gwneud swydd gwyh o helpu'r gymuned cymaint ag y gallen nhw. Gwnaeth yr ysgol hefyd trefnu diwrnod nodedig lle roedd cyfle i'r plant cadw heini ac gwneud gweithgareddau maen nhw'n mwynhau wrth codi arian i elusennau. Mae'r diwrnodau nodedig wedi bod yn llwyddiannus ac mae'r plant yn edrych ymlaen pob blwyddyn i cymryd rhan. Felly, mae'r ysgol yn gwneud hyn yn flynyddol.

I gloi, credaf yn gryf bod yr ysgol wedi llwyddo i gynnwys rhieni, gofalwyr a'r gymuned i mewn i fywyd ysgol ac wedi rhoi llawer o gefnogaeth i'r teuluoedd sydd angen cymorth y fwyaf. Yn bersonol, hoffais i'r syniad o'r boreau coffi a ni allaf ond dychmygu'r help mae hyn wedi rhoi i deuluoedd yr ysgol. Hefyd, credaf fod y polisïau drws agored yn ffordd arbennig i hybu teuluoedd i ymestyn allan am cymorth os oes angen ac mae mynediad hawdd a cyfrinachol i wneud hyn. Serch hyn, mae'r ysgol wedi gweld cynydd anferthol o llwyddiannau academaidd ac ymddygiad parchus tuag at bywyd ysgol trwy gydol y flynyddoedd diwethaf ac hyn, oherwydd y cymorth oddi wrth y rhieni, gofalwyr a'r gymuned yn y cartref.

Rhestr Cyfeirnod

[Inspection report](#) [REDACTED] [2018 \(gov.wales\)](#)

Estyn, Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales. (2018, Medi). *Inspection report* [REDACTED] 2018. GOV.WALES.

Mynediad olaf: 09/12/22

['Advantages of a Welsh medium education are still there.' - Wales Online](#)

Aled Blake. (2006, Ion 12). *Advantages of Welsh medium education are still there*. Wales Online.

Mynediad olaf: 09/12/22

[Welsh in the home and in education \(Welsh language use survey\): July 2019 to March 2020 | GOV.WALES](#)

Llywodraeth Cymru. (2021, Medi 14). *Welsh language use in Wales*. GOV.WALES.

Mynediad olaf: 08/12/22

[Welsh language teaching in Wales | TheSchoolRun](#)

Dim ysgrifennwr. Dim dyddiad. *Welsh language teaching in Wales*. The School Run.

Mynediad olaf: 09/12/22

[Maslow's Hierarchy of Needs \(verywellmind.com\)](#)

Kendra Cherry. (2022, Awst 14). *Maslow's Hierarchy of needs*. Very well Mind.

Mynediad olaf: 12/12/22

[Bronfenbrenner's Ecological Systems Theory \(simplypsychology.org\)](#)

Guy-Evans, O. (2020, Tach 09). *Bronfenbrenner's ecological systems theory*. Simply Psychology.

Mynediad olaf: 11/12/22

[What is a Forest School? | Benefits & Key Principles \(highspeedtraining.co.uk\)](https://highspeedtraining.co.uk/what-is-a-forest-school-benefits-key-principles)

Xenia Spencer-Milnes. (2021, Ion 08). *Forest school: what is it and what are the benefits?* High speed training.

Mynediad olaf: 11/12/22

[Three quarters of children arrive at primary school hungry, say teachers - Wales Online](https://www.walesonline.co.uk/news/education/three-quarters-children-arrive-primary-school-hungry-1911147)

Steven Smith. (2022, Ion 06). *Three quarters of children arrive at primary school hungry*. Wales Online.

Mynediad olaf: 12/12/22

[Primary school children affected by hygiene poverty, charity finds | Children | The Guardian](https://www.theguardian.com/children/2018/meh/19/primary-school-children-affected-hygiene-poverty-charity-finds)

Sally Weale. (2018, meh 19). *Primary school children affected by hygiene poverty; charity finds*. The Guardian.

Mynediad olaf: 14/12/22

[CRACH / PTA | Ysgol Gynradd Gymraeg Lon Las \(ygglonlas.co.uk\)](https://ygglonlas.co.uk/crach-pta-ysgol-gynradd-gymraeg-lon-las)

Ysgol Lon Las, (dim dyddiad). *CRACH/PTA*. [REDACTED]

Mynediad olaf: 18/12/22

[My Local School \(gov.wales\)](https://www.gov.wales/my-local-school)

Estyn. (2015, Tach). *MyLocalSchool*

Mynediad olaf; 19/12/22